Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Y cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg a chynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach): blwyddyn academaidd 2024 i 2025 (SFWIN 06/2024)

Yn rhoi manylion y cynlluniau Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) ar gyfer 2024 i 2025.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 14 Awst 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 14 Awst 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-llywodraeth-cymru-addysg-bellach-blwyddyn** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Trosolwg

Lansio gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru a sut i wneud cais

Meini prawf cymhwystra

Ymholiadau



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-llywodraeth-cymru-addysg-bellach-blwyddyn** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Trosolwg

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn rhoi manylion y cynlluniau grant addysg bellach canlynol, sy'n seiliedig ar incwm, ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025:

- Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA).
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLIC(AB)).

Nid oes unrhyw newidiadau i'r trothwyon incwm cymwys ar gyfer LCA a GDLIC(AB) a lefelau'r grant.

Mae'r cynlluniau ar gael i'w gweld ar y **dudalen cyllid i fyfyrwyr**.

Sicrhewch fod yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn cael ei ddosbarthu i'r holl staff a chydweithwyr sy'n helpu i weinyddu'r cynlluniau.

# Lansio gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru a sut i wneud cais

Agorodd gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025 ar 8 Ebrill 2024.

## Sut i wneud cais

### Myfyrwyr newydd

Cais papur: gall myfyrwyr newydd gasglu ffurflen bapur o'u hysgol neu goleg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-llywodraeth-cymru-addysg-bellach-blwyddyn** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Gellir hefyd lawrlwytho ceisiadau i'w hargraffu o **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

Cais electronig: disgwylir i'r gwasanaeth cyflwyno electronig agor ym mis Medi 2024. Mae hyn yn golygu y bydd myfyrwyr newydd yn gallu cyflwyno eu cais a lanlwytho tystiolaeth ategol trwy greu **cyfrif ar-lein**. Ceir gwybodaeth a chanllawiau pellach ar **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

### Myfyrwyr sy'n dychwelyd

Nid yw'n ofynnol i fyfyrwyr sy'n dychwelyd gyflwyno cais papur neu electronig. Mae eu Cytundeb LCA neu GDLIC(AB) wedi'i lofnodi yn gweithredu fel eu cais i ailymgeisio am gymorth am flwyddyn arall. Ysgrifennodd Cyllid Myfyrwyr Cymru at fyfyrwyr sy'n dychwelyd yn ystod gwanwyn 2024 i roi gwybod iddynt am y camau nesaf i'w dilyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025.

I gael gwybodaeth a chyngor cysylltwch â gwasanaeth cwsmeriaid dwyieithog Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0300 200 4050.

# Meini prawf cymhwystra

## Aelodau teulu cymwys o gynlluniau Wcráin neu Dinasyddion Afghanistan

Ar hyn o bryd mae'r cynlluniau'n darparu darpariaeth i berson fod yn gymwys i gael LCA neu GDLIC(AB) os ydynt wedi cael caniatâd i aros yn y DU o dan y Cynlluniau Wcráin perthnasol neu Bolisi Adleoli a Chymorth Afghanistan (ARPA) neu Gynllun Adsefydlu Dinasyddion Afghanistan (ACRS).

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025 mae'r cynlluniau wedi'u hymestyn i alluogi aelodau teulu perthnasol person sydd wedi cael caniatâd o dan y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-llywodraeth-cymru-addysg-bellach-blwyddyn** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

llwybrau mewnfudo Wcráin neu Afghanistan perthnasol uchod i fod yn gymwys i gael cyllid.

Bydd aelod o'r teulu hefyd yn gymwys o dan y ddarpariaeth ddigwyddiadau.

## Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel partner a ddiogelir a'u plant

Ar hyn o bryd mae'r cynlluniau'n darparu darpariaeth i wneud yn gymwys personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel dioddefwr cam-drin domestig neu drais domestig, a phartneriaid mewn profedigaeth, yn unol â darpariaethau o fewn y Rheolau Mewnfudo. Mae'r cynlluniau hefyd yn darparu i blentyn person o'r fath fod yn gymwys.

Yn dilyn newidiadau'r Swyddfa Gartref i'w Rheolau Mewnfudo ym mis Ionawr 2024, mae'r cynlluniau wedi'u diwygio ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025 i ganiatáu i bersonau cymwys wneud cais am gyllid os cânt ganiatâd i aros neu i ddod i mewn o dan yr Atodiadau newydd ar gyfer Dioddefwr Cam-drin Domestig a Phartner mewn Profedigaeth, yn amodol ar fodloni pob maen prawf arall.

Mae'r categori hwn hefyd yn gymwys o dan y ddarpariaeth ddigwyddiadau.

Nid yw'r newidiadau i'r Rheolau Mewnfudo yn effeithio ar y rhai sy'n cael cyllid ar hyn o bryd ym mlwyddyn academaidd 2023 i 2024.

Mae'r newidiadau uchod yn sicrhau meini prawf cyson ar gyfer y trefniadau cymorth cynhaliaeth ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-llywodraeth-cymru-addysg-bellach-blwyddyn** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Ymholiadau

Os oes gennych ymholiadau am geisiadau, sut i wneud cais, taliadau neu unrhyw agwedd arall ar y gwasanaeth, cysylltwch â **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, **e-bostiwch: isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru**.

Gellir gofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/y-cynllun-lwfans-cynhaliaeth-addysg-chynllun-grant-dysgu-llywodraeth-cymru-addysg-bellach-blwyddyn** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.